WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Medi 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** C12340

**Diben y ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon ar ffurf ddrafft a ddarperir yn gyfrinachol. Dim ond er mwyn cadarnhau cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt y'i darperir.

**Trafod y ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a’r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Penodedig ac erys felly. Mae’n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan bwerau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol yn unig ac fe’i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol a allai gael ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Oni chaniateir yn benodol o dan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw ran o'i chynnwys, na'i storio mewn system adalw na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw un ac eithrio'r sawl a'i derbyniodd yn wreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol.

# Cynnwys

Mae Anthony Barrett, fel yr Archwilydd Penodedig, yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 3 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 3 |
| Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad | 4 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 13 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Sir Ynys Môn | 17 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt | 19 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae Anthony Barrett, yn rhinwedd ei swydd fel yr Archwilydd Penodedig, yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") ar 31 Mawrth 2012 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**2.** Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ar 29 Mehefin 2012, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y mae'n rhaid i chi eu hystyried, yn ein barn ni, cyn i'r datganiadau ariannol gael eu cymeradwyo. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r swyddog adran 151 dros dro.

**3.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

**4.** Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor yw £2.2m. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

## Cydnabyddiaethau

**5.** Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o gynnydd i fynd i'r afael â phroblemau wrth lunio'r datganiad o gyfrifon a bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon, sef 30 Medi. Rydym wedi gweithio yn agos gyda'r Cyngor, ac o ganlyniad i hynny, mae proses archwilio 2011/12 wedi bod yn fwy hwylus. Mae'r Cyngor yn haeddu cydnabyddiaeth a chanmoliaeth am y ffordd y mae wedi ymdrin â'r gwelliannau angenrheidiol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi ein gwerthfawrogiad o'r cymorth a gawsom gan swyddogion yn y Cyngor yn ystod yr archwiliad. Er bod hyn i'w groesawu'n fawr, hoffem hefyd bwysleisio ei bod hi'n bwysig sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu cynnal.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

**6.** Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**7.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**8.** Nodwn yn Atodiad 3 y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi gwybod i ni am y rhesymau dros beidio â'u cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**9.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Risgiau archwilio sylweddol

**10.** Yn ein Strategaeth Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny.

| Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli | Canlyniad yr archwiliad |
|---|---|
| Cafodd anawsterau o ran llenwi swyddi'n barhaol yn y Tîm Cyllid effaith andwyol ar broses llunio cyfrifon y Cyngor yn 2010/11. Ar hyn o bryd staff dros dro sydd yn y swyddi hyn o hyd. Mae'n hanfodol bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn unol â'r amserlenni gofynnol | Gwnaethom gydweithio'n agos â'r rheolwyr i fonitro'r cynnydd a wnaed wrth baratoi a llunio cyfrifon 2011/12 a gwnaethom roi ein barn i'r Pwyllgor Archwilio ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio cyfrifon 2011/12.<br>Gwnaethom gadw mewn cysylltiad â'r rheolwyr drwy gydol y broses o lunio'r cyfrifon a'r broses archwilio.<br>Lluniodd y Cyngor gyfrifon drafft a'u cyflwyno i ni ddiwedd mis Mehefin 2012 yn unol â'r amserlen archwilio, ynghyd â phapurau gwaith perthnasol.<br>Hoffem bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu rhoi ar waith i ategu gwelliannau'r Cyngor yn y maes hwn yn y dyfodol. |
| **Sylwadau ar y datganiad ariannol** | **Canlyniad yr archwiliad** |
| Mae risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifyddu neu drin trafodion incwm a gwariant mewn ffordd sy'n arwain at | Gwnaethom ymgymryd â'r gweithdrefnau canlynol mewn ymateb i'r risg hon:<br>• profwyd rheolaethau allweddol i gadarnhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol; |

| | |
|---|---|
| gamddatganiad perthnasol yn y sefyllfa refeniw a nodir. | • profwyd gwaith cysoni allweddol;<br>• profwyd incwm a gwariant nad ydynt yn safonol i sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn briodol yn y cyfrifon;<br>• profwyd bod trafodion sy'n digwydd tua diwedd y flwyddyn wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi.<br>Gwnaethom ystyried y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cyngor a chynhaliwyd y lefel briodol o brofion ar incwm a gwariant er mwyn canfod unrhyw gamddatganiad perthnasol. Ni wnaethom nodi unrhyw faterion y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Archwilio. |
| Mewn unrhyw sefydliad, gall rheolwyr fod mewn sefyllfa i anwybyddu'r rheolaethau ariannol sydd ar waith gennych. Gall y fath achos o dorri'r rheolaethau arwain at gamddatganiad perthnasol. | Gwnaethom ddeall a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheoli mewnol fel rhan o'n gwaith cynllunio.<br>Gwnaethom adolygu priodoldeb y dyddlyfrau a broseswyd yn ystod y flwyddyn.<br>Gwnaethom hefyd edrych yn ofalus ar amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr ac ystyriwyd a oeddent yn cynnwys unrhyw duedd.<br>Cynlluniwyd a chyflawnwyd gweithdrefnau mewn perthynas â'r rhesymeg busnes dros drafodion sylweddol.<br>Mae ein gweithdrefnau archwilio hefyd yn cynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw faterion y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Archwilio. Nodir canlyniad ein gwaith mewn perthynas â'r amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr o dan y tabl hwn. |
| Mae risg nad yw amcangyfrifon a dyfarniadau'r Cyngor ynghylch darpariaethau a chroniadau wedi nodi pob darn o wybodaeth neu rwymedigaeth. | Gwnaethom asesu cyflawnder rhwymedigaethau ariannol drwy wirio'r rhwymedigaethau ariannol a dderbyniwyd cyn ac ar ôl dyddiad diwedd y flwyddyn i ganfod a oeddent wedi'u cynnwys yn gywir yn ffigurau'r rhwymedigaethau ariannol ai peidio.<br>Gwnaethom brofi'r darpariaethau perthnasol a ddelir gan y Cyngor ac ystyried p'un a oeddent yn cynnwys pob rhwymedigaeth hysbys yn y meysydd hynny.<br>Gwnaethom gynnig sawl addasiad ynghylch torbwynt rhwymedigaethau ariannol (ar gyfer gwallau caled o £98,000 a gwallau a allosodwyd o £279,000 a £182,000) a'r ddarpariaeth gwastraff ar gyfer safle Penhesgyn (ar gyfer £788,000) a gofnodir ym mharagraff 9. Mae'r eitemau hyn nas addaswyd yn is na'n lefel perthnasedd. |
| Yn 2010/11, roedd angen | Gwnaethom archwilio cyfalaf yn drylwyr, gan fynd ati i brofi |

| | |
|---|---|
| gwneud nifer o ddiwygiadau i'r cyfrifon o ganlyniad i wendidau yn nhrefniadau'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cyfrif am drafodion cyfalaf. Mae risg nad ymdriniwyd â'r gwendidau hyn. | meysydd fel ychwanegiadau, gwarediadau a sampl o'r asedau sefydlog a brisiwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol, gan asesu'r dull prisio a ddefnyddiwyd, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol a wnaed gan brisiwr y Cyngor.<br>Gwnaethom gysylltu â'r rheolwyr yn gynnar yn y broses archwilio er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyfalaf ar y cychwyn. |
| Mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a ddelir ar y Fantolen yn cael eu prisio'n ddigon rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r swm cario yn sylweddol wahanol i werth teg yr asedau hyn ar ddiwedd y flwyddyn. | Gwnaethom ystyried haeriad y Cyngor nad oedd yr asedau nas prisiwyd yn 2011/12 wedi'u camddatgan mewn ffordd berthnasol a gwnaethom asesu'r newid posibl yn eu gwerth yn unol â thueddiadau rhanbarthol ar gyfer gwerthoedd tir ac eiddo.<br>£122,000 oedd y newid posibl ar gyfer Tir ac Adeiladau Eraill a £780,000 oedd y newid posibl ar gyfer Anheddau Cyngor (y ddau yn gostwng), a allosododd effaith y tueddiadau hynny mewn prisiau tir ac eiddo ar draws yr asedau nas prisiwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol. Cawsom ein bodloni felly nad oedd yr asedau nas prisiwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol wedi'u camddatgan mewn ffordd berthnasol. |
| Mae gan y Cyngor Gasgliad Celf y rhoddwyd cyfrif amdano fel ased anghyfredol yn natganiadau ariannol 2010/11.<br>Bydd mabwysiadu FRS 30 Asedau Treftadaeth o dan y Cod yn arwain at newid polisi cyfrifyddu o 2011/12 ymlaen. Bydd hyn yn golygu y caiff asedau treftadaeth eu cydnabod fel dosbarth ar wahân o asedau am y tro cyntaf yn natganiadau ariannol 2011/12. | Mae angen cario Asedau Treftadaeth ar brisiad, oni fyddai'n anymarferol cael prisiad am gost sy'n gymesur â'r budd i ddefnyddwyr, pan gânt eu cario ar gost hanesyddol.<br>Aeth y rheolwyr ati i drefnu prisiad o'r Casgliad Celf i sicrhau y gellid ei ddal ar werth priodol ar y fantolen. Gwnaethant nodi asedau eraill hefyd a ystyriwyd yn Asedau Treftadaeth ac ailddosbarthwyd y rhain i'r man priodol ar y fantolen.<br>Gwnaethom adolygu gwaith y rheolwyr ar Asedau Treftadaeth a chynnig dau addasiad. Y cyntaf o'r rhain oedd newid y gwerth cymharol a nodwyd ar gyfer y Casgliad Celf i'r prisiad presennol, a'r ail oedd ailddosbarthu nifer o asedau yn Asedau Treftadaeth yn hytrach nag Asedau Gweithredol. |

## Amcangyfrifon arwyddocaol

**11.** Yn ystod ein harchwiliad gwnaethom ymgymryd â gweithdrefnau penodol mewn perthynas â meysydd sy'n destun risg o ran amcangyfrif.

## Prisiadau asedau sefydlog

**12.** Ailbrisiodd y Cyngor gyfran o'i bortffolio asedau sefydlog fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2011 yn unol â'i bolisi cyfrifyddu o ailbrisio asedau bob pum mlynedd. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar gadernid y cyfrifiadau a wnaed gan brisiwr mewnol cymwysedig y Cyngor a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad.

**13.** Gwnaethom gynnal profion interim cyn y prif archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn i asesu rhywfaint o'r data a oedd yn sail i fodelau prisio pob ased. Gwnaethom ganfod nifer o wallau bach a chywirwyd pob un o'r rhain wedyn er mwyn gallu rhoi prisiad diwygiedig ar gyfer yr asedau hynny yn y datganiad o gyfrifon drafft.

**14.** Yn ystod ein hymweliad archwilio ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaethom gynnal rhagor o brofion ar sampl o'r asedau a ailbrisiwyd, a chawsom gysur gweld bod y prisiadau wedi'u gwneud yn gywir a bod y rhagdybiaethau hanfodol yn rhesymol.

**15.** Gwnaethom ystyried haeriad y Cyngor nad oedd gwerth y gyfran o dir ac adeiladau nas prisiwyd yn 2011/12 wedi'i gamddatgan mewn ffordd berthnasol, a gwnaethom gymhwyso newidiadau mewn mynegeion rhanbarthol ar gyfer prisiau tir ac eiddo i'r gyfran hon. Yn achos anheddau cyngor a thir ac adeiladau eraill, nodwyd gwahaniaethau rhagamcanol o £780,000 a £122,000, gan ddangos nad oedd yr asedau nas prisiwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyfredol wedi'u camddatgan mewn ffordd berthnasol.

**16.** Yn unol â'i bolisi i ailbrisio asedau bob pum mlynedd, ni chafodd anheddau cyngor y Cyngor eu hailbrisio yn ystod y flwyddyn gyfredol. Yn ystod y flwyddyn flaenorol gwnaethom eich hysbysu bod y Cyngor yn defnyddio dull Beacon i brisio ei stoc tai cyngor, sy'n cynnwys dewis sawl eiddo sy'n nodweddiadol o wahanol gategorïau neu haenau o dai cymdeithasol, eu prisio, ac yna gymhwyso'r gwerth hwn i bob haen yn ei thro.

**17.** Er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng tai preifat a thai cymdeithasol (fel anheddau cyngor) lle mae gan denantiaid lawer mwy o hawliau, mae dull Beacon yn defnyddio ffactor addasu.

**18.** Ar adeg y prisiad (1 Ebrill 2011, fel y nodwyd yng nghyfrifon y flwyddyn flaenorol), nid oedd data ar gael ar y ffactorau addasu ar gyfer Cymru, felly dewisodd y Cyngor ranbarth cymharol (Swydd Efrog a Humberside) a chymhwysodd y ffactor addasu hon, sef 31%.

**19.** Cyhoeddwyd papur ymchwil gan DVS (arbenigwyr prisio yn y sector cyhoeddus) ym mis Ebrill 2011 a nododd wybodaeth ddangosol am ffactorau addasu ar gyfer rhanbarthau Cymru, a'r ffactor a roddwyd ar gyfer Gogledd a Gogledd-Ddwyrain Cymru oedd 39%. Nid yw'r papur hwn wedi'i gynnwys mewn unrhyw ganllawiau ffurfiol hyd yma.

**20.** Byddai newid o 1% yn y ffactor addasu a gymhwyswyd yn cael effaith berthnasol ar werth anheddau cyngor. Felly ystyriodd y Cyngor yn ofalus pa ffactor addasu y dylid ei defnyddio, a daeth i'r casgliad na wnaed digon o waith ymgynghori na dilysu ar y papur ymchwil iddo ddibynnu arno a gwneud newid mor fawr i'w ddatganiad o gyfrifon. Felly penderfynodd gadw ei ffactor addasu bresennol o 31% ond tynnodd sylw'r darllenwyr at y papur ymchwil yn ei ddatganiad o gyfrifon gan nodi y gallai arwain at newid

sylweddol yng ngwerth ei anheddau cyngor yn y dyfodol. Rydym o'r farn bod hyn yn rhesymol.

## Rhwymedigaethau cyflog cyfartal

**21.** Yn 1997, llofnododd cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur 'Gytundeb Statws Sengl'. Ymrwymodd y cytundeb, sy'n rhan annatod o ddeddfwriaeth cyflog cyfartal, awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau cyflog anwahaniaethol, gan fynd i'r afael â'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol. Nododd yr adolygiad hwn rai elfennau o wahaniaethu o ran cyflog ac o ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau ôl-gyflog i wneud iawn am hyn yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

**22.** Mae'r Cyngor wedi cael hawliadau cyflog cyfartal yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chafodd ragor o hawliadau yn ystod 2011/12. Mae'r rheolwyr wedi asesu'r tebygolrwydd y bydd hawliadau'n llwyddiannus er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth i'r Cyngor.

**23.** Rydym wedi cynnal profion trylwyr ar y cyfrifiadau a wnaed gan y rheolwyr ac wedi trafod yr amcangyfrif gyda'r swyddog adran 151 dros dro. Mae'r datganiad o gyfrifon yn adlewyrchu'r amcangyfrif sy'n briodol ym marn y rheolwyr, ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddynt a'u bwriadau wrth ddelio â'r hawliadau.

**24.** Yn ystod ein profion ar yr amcangyfrif, gwnaethom nodi nifer fach o addasiadau i'r amcangyfrif y mae'r Cyngor bellach wedi gwneud diwygiadau ar eu cyfer yn y datganiad o gyfrifon.

**25.** Mae'r Cyngor hefyd wedi datgelu rhwymedigaeth wrth gefn ar gyfer rhwymedigaethau cyflog cyfartal posibl nad ydynt wedi'u crisialu eto ac ni chafwyd unrhyw hawliadau ar eu cyfer.

## Darpariaeth gwastraff

**26.** Mae'r Cyngor wedi cadw darpariaeth o £1.9m yn y datganiad o gyfrifon mewn perthynas â chostau ôl-ofal ar ran o safle gwastraff Penhesgyn a gapiwyd. Mae prisiad y ddarpariaeth hon yn deillio o asesiad amgylcheddol arbenigol a gynhaliwyd yn 2008. Mae'r asesiad yn rhagamcanu costau ôl-ofal dros gyfnod o 30 mlynedd ar gyfer y safle cyfan. Fodd bynnag, dim ond cyfran o'r costau hyn a gydnabuwyd gan y Cyngor drwy ei ddarpariaeth gwastraff ar gyfer un rhan o safle gwastraff Penhesgyn.

**27.** Mae'r rhan arall o safle gwastraff Penhesgyn yn cynnwys cyfleusterau i gasglu a phrosesu nwy gwastraff a gynhyrchir wrth i wastraff bydru. Mae'r amcangyfrif ar gyfer gweddill y ddarpariaeth wedi'i ddisodli'n rhannol gan y buddsoddiad cyfalaf a wnaed er mwyn echdynnu a gwerthu nwy. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i fynd i'r costau sy'n weddill, sef costau refeniw, ac felly dylid darparu ar eu cyfer.

**28.** Dengys yr asesiad y dylai'r Cyngor gydnabod darpariaeth o £788,000 yn ychwanegol at ei ddarpariaeth bresennol o £1.9m. Fodd bynnag mae'r rheolwyr o'r farn bod darpariaeth ddigonol eisoes ar gael drwy'r ddarpariaeth bresennol o £1.9m a

chynlluniau cyllideb cyfalaf ac ni chredant y dylid cynyddu'r ddarpariaeth a gydnabyddir yn y datganiad o gyfrifon.

**29.** Felly rydym wedi cynnwys yr eitem hon fel camddatganiad nas cywirwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio.

### Asedau treftadaeth

**30.** Am y tro cyntaf yn 2011/12, mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan God Ymarfer CIPFA, gymhwyso FRS 30 Asedau Treftadaeth (nid oes fersiwn IFRS cyfatebol). Felly cynhaliodd y Cyngor ymarfer i nodi a phrisio asedau treftadaeth ac ailddatgan ei fantolen fel sy'n ofynnol pan fo'r polisi cyfrifyddu yn newid.

**31.** Y rhan fwyaf sylweddol o Asedau Treftadaeth y Cyngor yw'r Casgliad Celf a gedwir yn Oriel Ynys Môn, sydd wedi ei ailbrisio fel yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Gwnaethom nodi i'r ased hwn gael ei ailddosbarthu yn y cyfrifon drafft o ased cymunedol i Ased Treftadaeth, ac o werth o tua £400k, i brisiad yswiriant ailddatganedig o £18.1m cyn cael ei ailbrisio i lawr i'w brisiad ar y farchnad, sef £1.4m, ar 31 Mawrth 2012.

**32.** Gwnaethom gynnig addasiad i'r Cyngor y dylai prisiad y Casgliad Celf ar 1 Ebrill 2010 fod yn £1.4m oherwydd pan wneir addasiad i'r cyfnod blaenorol yn dilyn newid i'r polisi cyfrifyddu, y bwriad cyffredinol yw ailddatan y datganiad o gyfrifon fel pe bai'r polisi cyfrifyddu wedi bod mewn grym erioed. Mae'r cyfrifon wedi'u diwygio.

**33.** Nodwyd bod nifer o asedau eraill fel Carchar Biwmares hefyd yn Asedau Treftadaeth, ond yn y cyfrifon drafft gwnaeth y Cyngor eu cyfrif fel asedau gweithredol cyffredin. Gwnaethom drafod natur yr asedau hyn gyda'r Cyngor a chytunwyd y dylid eu hailddosbarthu'n asedau treftadaeth. Er bod yr asedau yn weithredol, cânt eu dal at ddibenion hanesyddol-diwylliannol neu dreftadaeth yn bennaf, ac felly dylid eu cydnabod yn llawn fel Ased Treftadaeth. Mae'r cyfrifon wedi'u diwygio.

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**34.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Cafwyd gennym fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall ar y cyfan. Daethom i'r casgliad fod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Fodd bynnag, hoffem dynnu sylw at y ffaith i'r broses o gau'r cyfrifon gael ei harwain yn bennaf gan ddau gyfrifydd interim cymwysedig, ac y dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn penodi cyfrifwyr parhaol â phrofiad addas.
- **Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. O gofio'r anawsterau a wynebwyd yn ystod archwiliad

2010/11, rydym yn fodlon iawn â'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud yn y maes hwn.

- **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
- **Ni wnaethom nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol ond rydym wedi nodi sawl maes lle gellid gwella rheolaethau. Hysbyswyd y rheolwyr o'r rhain ar wahân.**

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

(Pennawd llythyr y corff a archwilir)

Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
28 Medi 2012

## Sylwadau yn ymwneud â datganiadau ariannol 2011/12

Cyflwynir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol, IFRS a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a roddir

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad;
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt;
- unrhyw faterion eraill sy'n angenrheidiol ym marn yr archwilydd.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a honiadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt ac fe'u datgelwyd yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

| Dyddlyfr | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | Mantolen | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Darpariaeth ôl-ofal safle tirlenwi Penhesgyn<br>DR Cost gwasanaethau (Datganiad)<br>CR Darpariaethau (Mantolen)<br>*Darpariaeth ychwanegol o ran costau ôl-ofal rhagamcanol y Cyngor dros y safle cyfan am hyd ei drwydded.* | 788 | | | 788 |
| Torbwynt cyfrifon taladwy<br>DR Cyfrifon taladwy (Mantolen)<br>CR Cost gwasanaethau (Datganiad)<br>*Gwall a allosodwyd o ran ein hapbrofion o dorbwynt cyfrifon taladwy ar gyfer eitemau a gofnodwyd yn anghywir yn 2011/12.* | | 279 | 279 | |
| Rhwymedigaethau nas cofnodwyd cyfrifon taladwy<br>DR Cost gwasanaeth (Datganiad)<br>CR Cyfrifon taladwy (Mantolen)<br>*Nodwyd gwall caled ar gyfer rhwymedigaethau yn ymwneud â 2011/12 nas cofnodwyd yn y cyfnod hwnnw.* | 98 | | | 98 |
| Rhwymedigaethau nas cofnodwyd cyfrifon taladwy<br>DR Cost gwasanaeth (Datganiad)<br>CR Cyfrifon taladwy (Mantolen)<br>*Nodwyd gwall a allosodwyd ar gyfer rhwymedigaethau yn ymwneud â 2011/12 nas cofnodwyd yn y cyfnod hwnnw.* | 182 | | | 182 |
| **CYFANSWM** | **1,068** | **279** | **279** | **1,068** |

Yn ogystal, rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ac ar ôl cynnal ymchwiliadau priodol, y sylwadau canlynol:

- Bod y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses prisio asedau sefydlog yn briodol i Gyngor Sir Ynys Môn;
- Bod yr amcangyfrif o gost y Casgliad Celf a gedwir yn Oriel Ynys Môn yn seiliedig ar y wybodaeth orau oedd ar gael i'r Cyngor.
- Bod y rhagdybiaethau a ddefnyddir ym mhrisiad actiwaraidd y cynllun pensiwn yn briodol i Gyngor Sir Ynys Môn;

- Bod y balansau a gydnabyddir o ran rhwymedigaethau cyflog cyfartal yn gyflawn ac wedi'u hamcangyfrif yn gywir.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 27 Medi 2012.

Llofnodwyd gan:

[Swyddog sy'n llofnodi ar ran rheolwyr]

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

[Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu]

Dyddiad:

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

### Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 4, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2012 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011-12.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**28 Medi 2012**

# Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £350,000 | Gostyngiad yn y darpariaethau 'Eraill' ar fantolen y Cyngor, a chredyd cyfatebol i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr. | Nodwyd nifer o eitemau dyblyg yn y rhestrau darpariaethau manwl yn ystod ein profion. Tynnwyd y rhain. |
| £1,586,000 | Ailddosbarthu asedau yr ystyriwyd eu bod yn rhai treftadaeth eu natur o'r categori Eiddo, Offer a Chyfarpar i'r categori Asedau Treftadaeth. | Roedd y Cyngor wedi cynnwys nifer o asedau treftadaeth yn y balans Eiddo, Offer a Chyfarpar. |
| £16,668,000 | Addasiad i'r Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr i wrthbwyso'r golled ar yr ailbrisiad o Ased Treftadaeth y Casgliad Celf. Caiff yr elw cymharol yn 10/11 o £17.7m ei addasu hefyd. Caiff y balansau ailbrisio wrth gefn eu hailddatgan i adlewyrchu gwerth o £1.4m ar 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011. Cyfeiria'r newid yma at addasiad technegol yn unig, gan farnu bod y cyflwyniad gwahanol yn adlewyrchu'n well ar sylwedd y symudiadau prisio. | Nodwyd ffigur o £400,000 ar gyfer Ased Treftadaeth y Casgliad Celf yn natganiad o gyfrifon y flwyddyn flaenorol. Ar ôl i FRS 30 Asedau Treftadaeth gael ei gyflwyno, cafodd yr ased ei ailddatgan ar sail ei brisiad yswiriant o £18.1m ar 31 Mawrth 2011, a'i werth ar y farchnad, sef £1.4m, ar 31 Mawrth 2012. Dylai'r gwerth cyfredol o £1.4m gael ei gymhwyso'n ôl-weithredol i ddyddiadau'r cyfnod blaenorol yn ôl hyd at 1 Ebrill 2010. |

## Camddatganiadau nas cywirwyd

| Dyddlyfr | Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | Mantolen | |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Darpariaeth ôl-ofal safle tirlenwi Penhesgyn | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| DR Cost gwasanaethau (Datganiad)<br>CR Darpariaethau (Mantolen)<br>*Darpariaeth ychwanegol o ran costau ôl-ofal rhagamcanol y Cyngor dros y safle cyfan am hyd ei drwydded.* | 788 | | | 788 |
| Torbwynt cyfrifon taladwy<br>DR Cyfrifon taladwy (Mantolen)<br>CR Cost gwasanaethau (Datganiad)<br>*Gwall a allosodwyd o ran ein hapbrofion o dorbwynt cyfrifon taladwy ar gyfer eitemau a gofnodwyd yn anghywir yn 2011/12.* | | 279 | 279 | |
| Rhwymedigaethau nas cofnodwyd cyfrifon taladwy<br>DR Cost gwasanaeth (Datganiad)<br>CR Cyfrifon taladwy (Mantolen)<br>*Nodwyd gwall caled ar gyfer rhwymedigaethau yn ymwneud â 2011/12 nas cofnodwyd yn y cyfnod hwnnw.* | 98 | | | 98 |
| Rhwymedigaethau nas cofnodwyd cyfrifon taladwy<br>DR Cost gwasanaeth (Datganiad)<br>CR Cyfrifon taladwy (Mantolen)<br>*Nodwyd gwall a allosodwyd ar gyfer rhwymedigaethau yn ymwneud â 2011/12 nas cofnodwyd yn y cyfnod hwnnw.* | 182 | | | 182 |
| **CYFANSWM** | **1,068** | **279** | **279** | **1,068** |

Effaith net y camddatganiadau nas cywirwyd ar falans cost gwasanaethau a chronfa'r cyngor yw debyd o £789,000.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk